# Cyfraddau cyflog a chyflog byw

*13/03/2012*

**Cais am wybodaeth.**

Diolch am eich cais a ddaeth i law ar 29 Chwefror 2012, pan wnaethoch ofyn:

*1. Faint o weithwyr cyflogedig Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru a gontractiwyd yn uniongyrchol, sy'n cael eu talu llai na'r Cyflog Byw, sef £7.20 yr awr ar hyn o bryd?*
*2. Beth yw cyfraddau cyflog y gweithwyr cyflogedig hynny sy'n cael eu talu llai na £7.20 yr awr?*
*3. Faint o weithwyr cyflogedig sy'n gweithio fel contractwyr preifat, y mae eu prif rôl yn golygu gweithio i Gynulliad Cenedlaethol Cymru neu Lywodraeth Cymru, sy'n cael eu talu llai na £7.20 yr awr?*
*4. Beth yw cyfraddau cyflog y contractwyr preifat hynny sy'n cael eu talu llai na £7.20 yr awr?*

Yn gyntaf, fel gwybodaeth gefndir, ar ôl gwahanu'n ffurfiol yn 2007, mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru (y Cynulliad) yn endid ar wahân i Lywodraeth Cymru; y Cynulliad yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif. Fel yr eglurodd fy nghydweithiwr wrthych yn gynharach yr wythnos hon, dim ond ar ran y Cynulliad y gallaf ymateb. Os hoffech pe bawn i'n trosglwyddo'r rhan o'ch cais sy'n cyfeirio at y Gwasanaeth Iechyd Gwladol, a'r rhan honno o'ch cais uchod sy'n cyfeirio at Lywodraeth Cymru, i'w hystyried ganddynt, rhowch wybod i mi, ac fe wnaf hynny. Mae'r manylion cyswllt ar gyfer Llywodraeth Cymru ar gael ar eu gwefan yn y linc a ganlyn:
http://cymru.gov.uk/publications/accessinfo/?skip=1&lang=cy

Mewn ymateb i gwestiynau un a dau uchod, nid oes gweithwyr cyflogedig Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru na Staff Cymorth Aelodau'r Cynulliad sy'n ennill llai o gyflog na £7.20 yr awr.

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn/Tel: 029 20 821813
E-bost/Email:Alison.Rutherford@wales.gov.uk

Mewn ymateb i gwestiynau tri a phedwar, mae'n ofynnol bod staff a gyflogir gan gontractwyr y Cynulliad ar ystad y Cynulliad yn cael 'cyflog byw'. Bu'r gofyniad hwn ar waith ers sawl blwyddyn. I'r dibenion hyn, asesir 'cyflog byw' y Cynulliad ar raddfa o15% uwchlaw'r isafswm cyflog statudol.

Gan mai'r isafswm cyflog statudol cyfredol i oedolyn yw £6.08, mae "cyflog byw" y Cynulliad ar hyn o bryd, at ddibenion y contractau hyn, wedi'i bennu ar £7 yr awr, ac mae oddeutu 25 o staff contractwyr yn gweithio ar ystad y Cynulliad ar hyn o bryd y mae'r gyfradd hon yn berthnasol iddynt.

Mae'ch cais wedi'i ystyried yn unol â'r egwyddorion a nodir yn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth. Mae'r cod wedi'i gyhoeddi ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/abthome/abt-foi/abt-foi-cop-pub.htm. Cysylltwch â mi os oes gennych unrhyw gwestiynau ynghylch yr ymateb hwn. Os teimlwch fod gennych achos dros gwyno, gallwch ddilyn y canllawiau ar ddiwedd y llythyr hwn.

Yn gywir

**Alison Rutherford**
**Y Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

Achos pryder am eich ymateb Rhyddid Gwybodaeth neu gŵyn yn ei gylch?

Os nad wyf wedi dilyn y Cod Ymarfer ar Ganiatáu i'r Cyhoedd Weld Gwybodaeth yn gywir yn eich barn chi neu os nad ydych yn credu fy mod wedi cadw at y gyfraith berthnasol, gallwch gwyno'n ffurfiol i Brif Weithredwr a Chlerc Cynulliad Cenedlaethol Cymru ym Mae Caerdydd. Nodir egwyddorion trefn gwyno'r Cynulliad yn y Cod Ymarfer ar Gwynion sydd ar gael ar ein gwefan yn http://www.cynulliadcymru.org/conhome/con-complaint.htm. Rhowch wybod i mi os hoffech gael copi caled.

Os nad ydych yn fodlon ar ganlyniad yr adolygiad mewnol, mae'r hawl gennych i wneud cais uniongyrchol i'r Comisiynydd Gwybodaeth am benderfyniad. Gallwch gysylltu â'r Comisiynydd Gwybodaeth drwy ddefnyddio'r cyfeiriad a ganlyn:

Information Commissioner's Office
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Cheshire
SK9 5AF

**Alison Rutherford**
**Y Cydgysylltydd Mynediad at Wybodaeth**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**